PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 27 CHWEFROR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Molik(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lent, Lewis, Littlechild a/ac McGarry |

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi’u derbyn.

42 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Molik fuddiant personol fel Prif Swyddog Gweithredol Sight Cymru.

43 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12/12/22 a 16/01/23 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

44 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2023-2026 A CHYNIGION CYLLIDEB DRAFFT 2023/24

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd ystyried elfennau'r Cynllun Corfforaethol a’r Cynigion Cyllideb drafft sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Roedd y cynigion i fod i gael eu hystyried gan y Cabinet ddydd Iau 2 Mawrth, cyn cael eu hystyried gan y Cyngor ar 9 Mawrth.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r cyfarfod yn dechrau gyda'r Aelodau'n derbyn Trosolwg Corfforaethol o'r gyllideb.

Yna bydd y cynigion cyllideb, a rhannau o'r Cynllun Corfforaethol sy'n berthnasol i'r pwyllgor, yn cael eu hystyried yn unol â phortffolios yr Aelodau Cabinet, gan ystyried maes cyfrifoldeb y Cynghorydd Sangani yn gyntaf, yna'r Cynghorydd Mackie, yna'r Cynghorydd Bradbury ac yna'n dod i ben gyda'r Cynghorydd Thorne.

Trosolwg Corfforaethol

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a’r Swyddogion Chris Lee ac Ian Allwood o’r tîm cyllid ar gyfer y rhan hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion eu cyflwyniad i’r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, arsylwadau a sylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau, gan groesawu hefyd, y cynnydd sylweddol yn y gyllideb a gynigiwyd ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion ar gyfer 2023-24, ond roeddent yn pryderu, er gwaethaf y cynnydd sylweddol, fod y Gwasanaethau Oedolion yn dal i ragweld defnyddio £2.309m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn 2023-24. Cydnabu'r Aelodau fod y defnydd o gronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi'i gynllunio ond roeddent yn dal i bryderu y gallai'r Gwasanaethau Oedolion barhau i wynebu trafferthion ariannol er gwaethaf y cynnydd arfaethedig hwn yn y gyllideb.

Roedd yr Aelodau wedi'u drysu braidd, o ystyried yr heriau cydnabyddedig a'r galwadau y mae'r Gwasanaethau Oedolion yn eu hwynebu sy'n cynnig y rhesymau dros eu cynnydd sylweddol yn y gyllideb, eu bod yn rhagweld tanwariant o £1.820m o fis 9. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r rheswm dros y tanwariant hwn oedd anawsterau recriwtio'n amserol a mwy o ddefnydd o arian grant.

Un maes a oedd yn peri pryder i'r pwyllgor oedd goblygiadau cyllideb arfaethedig 2023-2024 (*gostyngiad net mewn swyddi cyfwerth ag amser llawn o 172.9*) ar weithwyr. Lleisiodd yr Aelodau nifer o amheuon ynghylch yr effaith y byddai dileu'r swyddi hyn yn ei chael ar wydnwch gwasanaethau, y goblygiadau i staff sy'n weddill a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r pwysau cyffredinol y byddai hyn yn eu rhoi ar yr awdurdod.

Nododd yr Aelodau y byddai gostyngiad mewn swyddi cyfwerth ag amser llawn, boed hynny drwy swyddi gwag neu ddiswyddo gwirfoddol, yn sicr o effeithio ar wydnwch gwasanaethau a'r awdurdod yn ei gyfanrwydd, ac y gellir priodoli'r swm cymharol uchel o ostyngiadau mewn swyddi cyfwerth ag amser llawn i'r cyd-destun ariannol presennol a'r bwlch cyffredinol yn y gyllideb y mae'r Cyngor hwn yn ei wynebu. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau, pan fo goblygiadau i weithwyr yn bresennol mewn arbedion effeithlonrwydd, cynhelir asesiad i sicrhau na fydd dileu'r swyddi hyn yn effeithio ar wasanaethau. Croesawodd yr Aelodau'r cynnig o fwy o wybodaeth am y 22.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u categoreiddio fel 'I'w cadarnhau / Adleoli'.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch goblygiadau costio cyffredinol diswyddo gwirfoddol, gan ystyried sut mae costio byrdymor yn erbyn arbed hirdymor yn cael ei bennu. Nododd yr Aelodau fod ymrwymiad cost cychwynnol gydag arian wedi'i neilltuo ar gyfer taliadau diswyddo gwirfoddol, fodd bynnag maent yn eu tro yn darparu arbediad cyllideb sylfaenol parhaus, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Tynnodd yr Aelodau sylw at ryddhau'r gyllideb Covid-19 £10miliwn a gofynnon nhw am eglurder ynghylch sut y cafodd ei defnyddio i fynd i'r afael â'r bwlch cyffredinol yn y gyllideb. Dywedodd y Swyddogion fod yr arian hwn wedi'i ail-alinio a'i gynnig i wasanaethau sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol.

O ran y Rhaglen Gyfalaf, gwnaeth yr Aelodau ystyried a chwestiynu dibyniaeth gyffredinol y Cyngor ar gyllid grant - gan fynegi pryderon ynghylch risgiau a chynaliadwyedd. Nododd yr Aelodau'r cyfaddefiad bod dibyniaeth ar grantiau yn peri rhywfaint o risg, fodd bynnag, mae cyllid grant ar gyfer buddsoddi cyfalaf wedi bod yn nodwedd o gyllid awdurdodau lleol ers blynyddoedd lawer gydag Aelodau Cabinet a swyddogion yn penderfynu'n agos ar y defnydd o grantiau yn seiliedig ar ddeallusrwydd a fforddiadwyedd, gyda buddsoddiadau cyfalaf eraill hefyd yn cael eu dilyn yn y rhaglen.

Y Cynghorydd Sangani - yr Aelod Cabinet dros Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Julie Sangani, yr Aelod Cabinet dros Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb, Sarah McGill, Jane Thomas, a Helen Evans i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Sangani i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu cwestiynau, eu sylwadau a'u harsylwadau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn falch o weld y cynnig yn ymwneud â chynlluniau benthyciadau pwysedd gwaed o fewn MGA 2023/24 a gofynnon nhw am eglurder ar drefniadau bwriadedig y cynnig. Dywedodd y Swyddogion y byddai'r cynllun yn gynllun peilot a hoffai'r Aelodau bwysleisio pwysigrwydd ystyried lleoliad yr offer hwn yn drylwyr, o ystyried nad yw pob un o drigolion Caerdydd yn byw'n agos at hybiau, a'r angen i sicrhau bod mesurau lliniaru mewn lle er mwyn osgoi achosion lle na ddychwelir offer.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y cynnig arbediad effeithlonrwydd o'r enw 'Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Wcráin a dywedwyd wrthynt y byddai costau'n cael eu gwrthbwyso yn erbyn cynllun Wcráin.

Y Cynghorydd Norma Mackie - Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Norma Mackie, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion a ymunodd â Jane a Sarah ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Mackie i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion eu cyflwyniad i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, arsylwadau a sylwadau gan yr Aelodau.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau am y ffaith na fydd llawer o effaith os o gwbl ar ddefnyddwyr gwasanaeth oherwydd y cynnig hwn, am y cadarnhad na fyddai gofyn i unigolion symud adref, ac am y gydnabyddiaeth ar yr angen i sicrhau dull graddol ar gyfer newidiadau mewn personél (gweithwyr cymorth).

Er bod y cynnig hwn yn ymwneud â gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector sydd eisoes â pherthynas sefydledig â'r Cyngor, o ystyried y cyd-destun presennol, cwestiynodd yr Aelodau'r dichonoldeb hwn o ystyried y pwysau ariannol a'r problemau recriwtio y byddant hefyd yn eu hwynebu. Dywedodd y Swyddogion fod sgyrsiau cychwynnol wedi'u cynnal gyda phartneriaid yn y trydydd sector sydd wedi rhoi sicrwydd bod ganddynt y gallu a'r capasiti i reoli'r cynnig hwn yn effeithiol ac yn sensitif.

Nododd yr Aelodau o fewn y cynnig newid gwasanaeth hwn, fod 37 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi gofyn am ddiswyddo gwirfoddol. Yn unol â'r pryder parhaus ynghylch recriwtio a chadw, cododd yr Aelodau'r hyn y mae hyn yn ei ddangos o ran amodau gwaith, gan fod hyn yn awgrymu nad yw nifer uchel o unigolion yn dymuno gweithio yn yr alwedigaeth hon mwyach o bosibl ac nad oes modd eu cadw.

Wrth ystyried yr arbedion effeithlonrwydd cyffredinol a gynigiwyd ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion, nododd Aelodau'r Pwyllgor fod nifer sylweddol wedi'u

categoreiddio fel 'oren-gwyrdd' o ran y gallu i'w cyflawni, gyda'r cynnig newid gwasanaeth wedi'i gategoreiddio fel 'oren-coch'. Gofynnodd yr Aelodau am gipolwg ar y gallu i weithredu nifer o gynigion sy'n cynnwys lefel o ansicrwydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y dosbarthiad 'coch-oren' ar gyfer y cynnig newid gwasanaeth yn ymwneud yn bennaf ag amserlenni, a bod yr arbedion effeithlonrwydd a gynigiwyd yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol a gwaith parhaus y gwasanaeth; a thrwy hynny leihau risg a chryfhau'r gallu o ran cyflawni.

O ran y Cynllun Corfforaethol drafft, ystyriodd yr Aelodau lefelau adnoddau o ran yr ymrwymiad ar gyfer '*moderneiddio ein gwasanaethau gofal yn y cartref i ddarparu gwasanaeth ail-alluogi llawn a gofal brys byrdymor*'. Er nododd yr Aelodau fod anawsterau recriwtio yn bresennol o hyd, roeddent yn falch o gael gwybod am y camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau, fel cynnydd mewn cyflogau a newidiadau i rotas staff.

Nododd yr Aelodau'r gydnabyddiaeth yn y Cynllun Corfforaethol drafft, fod angen mynediad at lefel briodol o hyfforddiant ar holl staff y Cyngor i fodloni anghenion pobl awtistig, fodd bynnag, roedd absenoldeb Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn mesur perfformiad yr ymrwymiad hwn. Nododd yr Aelodau fod y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn yn cael ei fonitro a'i gofnodi yng Nghynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth y gwasanaeth.

Y Cynghorydd Peter Bradbury - Trechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Bradbury i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu arsylwadau.

Nododd yr Aelodau fod lefel y cyllid a ddyrannwyd i'w bortffolio, er i'w chroesawu, yn codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd. Cododd yr Aelodau bryderon staff cynghori o ran sicrwydd swyddi, gan fod lefel uchel ar gontractau dros dro. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er bod lefel o gyllid grant bob amser yn bresennol, a'r gwasanaeth yn elwa o ysgrifennydd Ardal Gwella Busnes pwrpasol i sicrhau ffrwd incwm allanol gyson, fod gwaith yn parhau tuag at wneud rhai swyddi'n barhaol trwy gyllid grant. Yn ogystal, mae gwaith hefyd yn parhau tuag at ddarparu sicrwydd i staff sydd ar gontractau dros dro i leddfu ansicrwydd ynghylch diogelwch swyddi.

Nododd yr Aelodau fod y galw am gymorth ariannol yn codi'n anffodus a gofynnon nhw am esboniad pam nad oedd dyraniad MGA 2022/23 ar gyfer y tîm cynghori a'r gwasanaethau i mewn i waith wedi cael ei ddefnyddio, dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn o ganlyniad i'r arian yn cael ei ddisodli gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

O ran yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig (£90,000), nododd yr Aelodau fod hyn o ganlyniad i weithredu Credyd Cynhwysol sydd yn ei dro yn lleihau'r llwyth gwaith ar gyfer asesu Budd-dal Tai gan ganiatáu rhyddhau staff.

O ystyried y cyd-destun presennol, nododd yr Aelodau'r gydnabyddiaeth bod sefydliadau yn y trydydd sector o dan bwysau ariannol a chapasiti sylweddol, a gofynnon nhw am sicrwydd bod hyn yn cael ei ystyried o fewn ein gwaith partneriaeth ac y byddai'n parhau i gael ei ystyried. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod dibyniaeth ar y

trydydd sector o fewn y maes cyngor wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o waith mewnol. Fodd bynnag, caiff gwaith partneriaeth ei adolygu a'i asesu'n barhaus, gyda'r ystyriaethau hyn ar flaen y gad. Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen i sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cynnig cymorth i grwpiau agored i niwed penodol, oherwydd efallai na fydd grwpiau o'r fath yn teimlo'n gyfforddus yn dod at y Cyngor, ac yn hytrach yn dymuno cael cymorth trwy sefydliadau pwrpasol. Nododd yr Aelodau o ymateb y Cynghorydd Bradbury ei fod yn teimlo bod hyn yn ei le a chroesawon nhw ei gynnig i ddangos i'r pwyllgor y sefydliadau sy'n dangos gwaith o'r fath.

O ran y Cynllun Corfforaethol, roedd yr Aelodau yn falch o gael gwybod am dargedau mewn perthynas â nifer y bobl sy'n cael cymorth gyda budd-daliadau a bod yr arian a ddarparwyd wedi'i ail-alinio'n unol ag allbwn presennol y tîm.

Y Cynghorydd Thorne - Tai a Chymunedau

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad agoriadol, rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad a gofynnwyd i'r Aelodau am eu cwestiynau, eu sylwadau a'u harsylwadau.

O ran y cynnig newid gwasanaeth, ystyriodd yr Aelodau a fyddai gan y gwirfoddolwyr ddisgrifiad swydd penodol, ac a fyddent yn cael cynnig contract, a fyddai'n nodi nifer yr oriau gofynnol o waith, gan gynnig rhywfaint o sicrwydd i'r gwirfoddolwr ac i aelodau o staff.  Dywedodd y Swyddogion nad oedd oriau contract wedi cael eu hystyried eto gan mai 'rhoi'r hyn y gallwch' wrth wraidd yr ethos. Fodd bynnag, byddai disgrifiad swydd yn cael ei ddarparu ac o ran oriau, gall cyfyngiadau fod yn berthnasol yn ddibynnol ar a yw'r unigolyn yn derbyn budd-daliadau. Byddai'r gwasanaeth yn edrych i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn canfod lefel yr oriau sy'n gallu cael ei darparu.

Roedd y pryderon penodol a godwyd ynghylch y cynnig hwn yn ymwneud â goblygiadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o staff pe na bai gwirfoddolwr yn gallu cyflawni ei rôl. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y bwriad y byddai gwirfoddolwyr yn gallu dewis cyfleoedd drwy'r disgrifiadau swydd sydd ar gael ar y wefan, a thrwy hynny gynnig arbenigedd o bosibl, a'r bwriad oedd y byddent yn ymgymryd â 'chymorth cyffwrdd ysgafn' er mwyn galluogi aelodau o staff i roi cyngor mwy ymroddedig a manwl. Dylai hyn yn ei dro, leihau risg a goblygiad i aelodau o staff.

Nododd yr Aelodau fod y defnydd o 'wirfoddolwyr wedi'u trefnu' eisoes yn bresennol mewn rhai hybiau, sy'n cael eu cydnabod am gynnig gwaith a digwyddiadau rhagorol. O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, roedd yr Aelodau hefyd yn falch o nodi bod 62 o wirfoddolwyr y Gwasanaeth i Mewn i Waith (99%) wedi symud ymlaen i waith parhaol, ynghyd â'r buddion eraill a amlinellwyd yn y cyfarfod, fel rhoi sgiliau newydd i unigolion, a gwelliant i les unigolion.

O ran yr Hyb Ieuenctid arfaethedig, gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar ei gynnydd a dywedwyd wrthynt fod y Swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd i sicrhau

nad oes cyfyngiadau cynllunio na phroblemau technegol gyda'r safle a nodwyd. Roedd yr Aelodau’n edrych ymlaen at fonitro datblygiad y gwaith hwn.

O ran y Cynllun Corfforaethol, gofynnodd yr Aelodau am esboniad pam fod y targed blynyddol ar gyfer datblygu tai newydd wedi cael ei ddisodli gan darged cronnus. Er bod yr ymateb ynghylch ffactorau allanol yn dylanwadu ar dargedau blynyddol ar gyfer y rhaglen waith hon wedi'i nodi a'i ddeall, o ystyried pwysigrwydd a'r angen acíwt am dai cymdeithasol yn y ddinas, teimlwyd bod targed blynyddol sy'n galluogi cipolwg clir ar lwybr y rhaglen hon yn arwyddocaol ac roedd yr Aelodau o'r farn y gellid adfer y targed blynyddol naill ai o fewn y Cynllun Corfforaethol, neu o fewn Cynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth y gwasanaeth.

Ystyriodd yr Aelodau'r dyraniad o £200,000 ar gyfer y Cynllun Adfywio Cymdogaethau ym MGA 2023/24 a chytunon nhw gyda'r Cynghorydd Thorne ar bwysigrwydd adfywio cymunedau lleol, yn arbennig o ran sut y gall helpu i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am sut y gall Cynghorwyr wneud ceisiadau i'r Cynllun Adnewyddu Cymdogaethau, gan gynnwys amserlenni ynglŷn â phryd y mae'n rhaid gwneud ceisiadau.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

45 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

46 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Llun 20 Mawrth am 2:00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm